# Sinema Cymru
## Cwestiynau Cyffredin

**Cynnwys**

Sut mae Sinema Cymru yn cael ei ariannu? .......................................1

Sut bydd penderfyniadau cyllido'n cael eu gwneud? ..........................1

Pwy fydd yn darparu nodiadau ac yn cymeradwyo'r prosiectau llwyddiannus? .......................................................................................2

Sut bydd y penderfyniadau cyllido a'r dyfarniadau yn cael eu hystyried a'u cyhoeddi? ...............................................................2

A fydd y cynllun yn cefnogi ffilmiau dogfen a ffilmiau wedi'u hanimeiddio? ........................................................................................2

A oes angen i holl aelodau'r tîm fod yn siaradwyr Cymraeg rhugl? ....2

A fydd y ffilmiau'n cael eu darlledu ar S4C? .......................................3

Oes angen i mi wneud cais gyda thîm llawn?....................................3

Alla i wneud cais fel yr awdur, y cyfarwyddwr a'r cynhyrchydd? ........4

Ai dyma'r unig gefnogaeth i ffilm nodwedd Gymraeg?.......................4

A fydd cymorth mynediad ar gael i mi, y cast a/neu'r criw? ...............4

### Sut mae Sinema Cymru yn cael ei ariannu?

Mae Sinema Cymru yn cael ei ariannu drwy £1 miliwn o Gronfeydd Cyfalaf gan Cymru Creadigol Llywodraeth Cymru, a £1 miliwn gan S4C.

### Sut bydd penderfyniadau cyllido'n cael eu gwneud?

Bydd cynrychiolydd o Cymru Greadigol, S4C a Ffilm Cymru ar y panel sy'n trafod ac yn penderfynu ar geisiadau i'r gronfa hon. Yn ogystal â hyn, efallai y byddwn yn ymgysylltu ag arbenigwyr ffilmiau allanol i

gael eu cyngor ar y prosiectau. Bydd tri phrosiect yn cael eu dewis i'w datblygu yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen, gyda'r bwriad o un o'r rhain yn cael ei ddewis i'w gynhyrchu.

**Pwy fydd yn darparu nodiadau ac yn cymeradwyo'r prosiectau llwyddiannus?**

Bydd Ffilm Cymru ac S4C yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu nodiadau.

**Sut bydd y penderfyniadau cyllido a'r dyfarniadau yn cael eu hystyried a'u cyhoeddi?**

Bydd penderfyniadau cyllido yn cael eu cyhoeddi ar wefan Ffilm Cymru ac yn eu Hadroddiad Blynyddol.

**A fydd y cynllun yn cefnogi ffilmiau dogfen a ffilmiau wedi'u hanimeiddio?**

Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar ffilmiau naratif gydag actorion byw. Fodd bynnag, mae holl gronfeydd eraill Ffilm Cymru, gan gynnwys ein cronfa ffilm fer flynyddol, yn agored i ffilmiau gydag actorion byw, ffilmiau dogfen a ffilmiau wedi'u hanimeiddio, yn Gymraeg, yn Saesneg neu mewn ieithoedd eraill. Rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar ffilmiau annibynnol sydd â'r potensial i gyrraedd sinemâu yn rhyngwladol neu i lansio gyrfa mewn ffilmiau nodwedd mewn perthynas â ffilmiau byr.

Mae S4C a Cymru Greadigol hefyd yn cynnig ffyrdd eraill o gefnogi ffilmiau dogfen a ffilmiau wedi'u hanimeiddio.

**A oes angen i holl aelodau'r tîm fod yn siaradwyr Cymraeg rhugl?**

Mae'n bwysig bod y sgript yn cael ei hysgrifennu'n Gymraeg ond rydym yn agored i wahanol ffyrdd o weithio a phrofiadau gwahanol o'r Gymraeg. Fodd bynnag, ni allwn gefnogi prosiectau sy'n gyfan

gwbl drwy gyfrwng y Saesneg ac a fyddai'n cael eu cyfieithu gan drydydd parti nad yw'n rhan greiddiol o'r tîm creadigol.

**A fydd y ffilmiau'n cael eu darlledu ar S4C?**

Bydd y ffilmiau sy'n cael eu cynhyrchu yn cael eu darlledu ar S4C ond mae'r cynllun yn canolbwyntio ar ddatblygu syniadau y mae modd iddynt gael eu gwerthu a'u dosbarthu mewn sinemâu yn rhyngwladol a chael sylw mewn gwyliau ffilmiau. Bydd dangos y ffilmiau mewn sinemâu yng Nghymru yn rhan bwysig o gyrhaeddiad y cynhyrchiad. Dylai potensial y dangosiadau hynny fynd y tu hwnt i agweddau hunan-gyllido neu hunan-ryddhau, gan gyfleu potensial gwirioneddol i deithio a denu diddordeb i'w prynu a'u dosbarthu. Mae'n bwysig ein bod yn cefnogi cynaliadwyedd y diwydiant ffilmiau Cymraeg ac mae hynny'n gofyn am ddealltwriaeth o natur ryngwladol a hir y model busnes ffilm.

**Oes angen i mi wneud cais gyda thîm llawn?**

Peidiwch â gwneud cais gyda'r cast a'r criw llawn – os oes gennych chi berthynas benodol ag actor neu bennaeth adran gwerthfawr, mae'n werth nodi hynny. Ond, gan fod argaeledd yn newid cymaint ac nad yw'r ffilm wedi'i hariannu i gael ei chynhyrchu eto, byddai'n rhy gynnar atodi'r cast neu'r criw. Rydym yn fodlon i gynhyrchwyr wneud cais gydag awduron yn unig, neu gyda rolau awduron a chyfarwyddwyr wedi'u llenwi. Byddwn hefyd yn ystyried ceisiadau gan awduron ar wahân a gallwn gyfateb timau â chynhyrchwyr a chyfarwyddwyr. Mae'n bwysicach eich bod yn gweithio gyda thîm sy'n gallu rhoi hwb i'ch ffilm (a allai fynd y tu hwnt i'ch rhwydweithiau presennol) na'ch bod yn dod o hyd i dîm ar unwaith. Peidiwch â gwneud cais gyda mwy na phedwar prif awdur, cyfarwyddwr a chynhyrchydd oherwydd cyfyngiadau ariannol y cynllun.

**Alla i wneud cais fel yr awdur, y cyfarwyddwr a'r cynhyrchydd?**
Na. Oherwydd bod pob rôl yn heriol iawn ac mae gwrthdaro rhwng y broses greadigol a'r broses fusnes, mae angen cynhyrchydd ar wahân arnom sy'n gweithredu fel cynhyrchydd yn unig, er y byddwn yn derbyn awduron a chyfarwyddwyr unigol neu awduron/cyfarwyddwyr.

**Ai dyma'r unig gefnogaeth i ffilm nodwedd Gymraeg?**
Rydym wedi llunio'r cynllun gydag anghenion ffilm Gymraeg mewn golwg, gan ddatgloi cronfeydd penodol er mwyn cyflawni hyn. Felly, rydym yn credu y bydd gwneud cais i'r cynllun yn rhoi'r gefnogaeth fwyaf cyfannol i'r tîm ar gyfer eu prosiect.

Fodd bynnag, bydd holl gyllid Ffilm Cymru, o ffilmiau byr i ddatblygiadau cynnar hyd at ein cyllid cynhyrchu, yn parhau i groesawu ffilmiau Cymraeg. Os oes gennych chi syniad nad ydych chi'n meddwl sy'n addas ar gyfer y cynllun, edrychwch ar ein cronfeydd eraill yma.

**A fydd cymorth mynediad ar gael i mi, y cast a/neu'r criw?**
Bydd cymorth mynediad ar gael i'r tîm craidd fynychu unrhyw weithdai, cyfweliadau a chyfarfodydd os cânt eu rhoi ar y rhestr fer, eu dewis ar gyfer y broses ddatblygu a/neu os roddir cyllid cynhyrchu iddynt. Hefyd, os oes gan unrhyw aelod o'ch tîm craidd, y cast neu'r criw ofynion mynediad personol a fydd yn arwain at gostau wrth gynhyrchu eich ffilm, gallwch gynnwys y costau hyn yn eich cyllideb. Gall hyn fod yn gymorth penodol sydd ei angen ar bobl anabl neu bobl sydd â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol, neu bobl sydd â chyfrifoldebau gofalu. Er enghraifft, dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain, costau teithio neu lety ychwanegol ar gyfer aelodau anabl o'r tîm, cynorthwyydd personol ar gyfer aelod o'r tîm sydd ag anabledd dysgu neu gyflwr iechyd meddwl, neu gostau gofal plant. Gallwch hefyd nodi unrhyw gostau mynediad penodol ar gyfer camau gweithredu a fydd yn gwneud y gwaith ei hun yn fwy cynhwysol ee

capsiynau creadigol, Iaith Arwyddo Prydain neu sgrinio prawf ar gyfer cymuned sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Nodwch yn glir unrhyw gostau mynediad yn eich cyllideb fel eitem ar linell ar wahân.